



08.11.22

Annwyl Rieni / Ofalwyr

Yn gyntaf, diolch yn fawr am eich holl gefnogaeth a'ch cydweithrediad wrth inni symud ymlaen trwy Dymor yr Hydref. Dyma ychydig o nodiadau atgoffa yn ystod yr hanner tymor hwn.

### **Holiaduron Rhieni / Gofalwyr**

Mae eich barn yn bwysig i ni; felly, bydd holiadur ysgol yn cael ei ddanfon atoch trwy neges destun. Byddwn yn ymateb maes o law gydag ymatebion a gweithredoedd yr ysgol ar ôl coladu'r ymatebion. Llenwch yr Holiadur Barn Rhieni erbyn dydd Llun 14 Tachwedd os gwelwch yn dda.

### **Nodiadau Atgoffa**

- Sicrhewch fod gennym **rifau ffôn cyfoes (cartref a symudol), cyfeiriadau a gwybodaeth** - os bu unrhyw newidiadau, anfonwch y manylion / newidiadau newydd i'r swyddfa cyn gynted â phosibl. Fel arall, diweddarwch y manylion cyswllt trwy'r App Rhiant.
- Os yw'ch plentyn yn sâl, cysylltwch â'r ysgol a gadewch neges ar y llinell absenoldeb cyn 9.00yb ar bob diwrnod o salwch, gan nodi natur benodol a'r rheswm dros yr absenoldeb.

### **Addysg Gorfforol / Gwisg**

Gofynnir i ddisgyblion fynychu'r ysgol yn gwisgo'u cit AG ar ddiwrnodau AG. Mae cit AG yr ysgol yn esgidiau addas, gwaelodion tracwisg tywyll a thop gwyn. Gofynnwn yn garedig i chi lynu wrth y lliwiau hyn a pheidio â chaniatáu dillad llachar, lliwgar. Diolch hefyd am gefnogi'r profiadau dysgu awyr agored gydag hen sgidiau neu welingtons ar y diwrnodau penodedig.

### **Trefniadau Nadolig**

**Cyngherddau Nadolig:** Bydd pob grŵp blwyddyn mewn cysylltiad yn fuan gyda dyddiadau a threfniadau i fynychu dathliad Nadoligaidd yn ystod yr wythnos yn dechrau dydd Llun 12 Rhagfyr.

Cinio Nadolig: **Dydd Mercher 21 Rhagfyr**

Siwmpwr Nadolig / Diwrnod Dillad Eich Hun: **Dydd Gwener 9 Rhagfyr**

**Ymweliad Arbennig:** Mae Bro Ogwr wedi derbyn neges arbennig gan Siôn Corn i ddweud y bydd yn ymweld â ni diwedd y tymor. Bydd pob dosbarth yn cael cyfle i ymweld â Siôn Corn, fel grŵp cyfan ac nid yn unigol. Os nad ydych yn dymuno i'ch plentyn ymweld â Siôn Corn gyda'r dosbarth, rhowch wybod i'r athrawon dosbarth neu swyddfa'r ysgol.

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch, p'un a yw'n addysgiadol neu'n fugeiliol, peidiwch ag oedi cyn e-bostio swyddfa'r ysgol ar [admin@ygbroogwr.pen-y-bont.cymru](mailto:admin@ygbroogwr.pen-y-bont.cymru).

Diolch am eich cefnogaeth parhaus

Cofion cynnes

Sharon Jayne

Pennaeth

Dear Parents / Carers

Firstly, many thanks for all of your support and co-operation as we progress through this Autumn Term. Here are just a few reminders for this half term.

### **Parent / Carer Questionnaires**

Your opinion and views are important to us; therefore, a school questionnaire will be sent to you via text message. We will respond in due course with responses and school actions after compiling the responses received. Please complete the Parental View Questionnaire by Monday 14 November.

### **Reminders**

- Please ensure we have **up to date phone numbers (home and mobile), addresses and information** – if there are any changes, please send the new details / changes in to the office as soon as possible. Alternatively, please update the contact details via the Parent App.
- If your child is unwell, please contact the school and leave a message on the absence line before 9.00am on each day of illness, stating the specific nature and reason for the absence.

### **PE / Uniform**

Pupils are asked to attend school wearing their PE kit on PE days. School PE kit is suitable footwear, dark tracksuit bottoms and a white top. We kindly ask that you adhere to these colours and **not** allow bright, colourful clothing. Thank you also for supporting the outdoor learning experiences with old shoes or wellies on the designated days.

### **Christmas Arrangements**

**Christmas Concerts:** Each year group will be in contact soon with dates and arrangements to attend a festive celebration during the week commencing Monday 12 December.

Christmas Dinner: **Wednesday 21 December**

Christmas Jumper / Own Clothes Day: **Friday 9 December**

**Special Visit:** Bro Ogwr has also received a special message from Father Christmas to say that he will be visiting us here at Bro Ogwr before the end of term. All classes will have a chance to visit Father Christmas, as a whole group and not individually. If you do not wish for your child to visit with Father Christmas with the class, please inform the class teachers or school office.

If you require any assistance, whether educational or pastoral, please do not hesitate to email the school office on [admin@ygbroogwr.pen-y-bont.cymru](mailto:admin@ygbroogwr.pen-y-bont.cymru).

Thank you for your continued support.

Kind Regards

Sharon Jayne

Headteacher